**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1039
Ein cyf/Our ref DET/02696/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@gov.wales

28 Hydref 2020

Annwyl Janet

Diolch am eich gohebiaeth dyddiedig 9 Hydref ar ran eich etholwr am Ddeiseb P-05-1039 i ganiatáu athletwyr amatur yn yr ardal glo i gael hyfforddiant y tu allan i'r ardal.

Yn dilyn cyhoeddiad y Prif Weinidog ar 19 Hydref, bydd gofyn i bobl Cymru aros gartref rhwng 23 Hydref a 9 Tachwedd i'n helpu i gael gafael unwaith eto y coronafeirws. Darllenwch yr arweiniad a'r cwestiynau cyffredin am y cyfnod atal byr yn yma. Fel y dywedir yn y Cwestiynau Cyffredin, dim ond athletwyr proffesiynol sydd ag esgus resymol i adael gartref i hyfforddi neu gystadlu yn ystod y cyfnod atal byr gan fod y rheoliadau'n caniatáu i bobl weithio.

Mae angen y cyfnod hwn o bythefnos arnom i achub bywydau ac i ddiogelu'r GIG rhag cael ei lethu. Mae'r achosion o'r coronafeirws wedi bod yn cynyddu'n gyflym yng Nghymru wrth i'r feirws ddeffro ar gyfer y gaeaf. Er bod y mesurau cenedlaethol a lleol ledled Cymru wedi helpu i'w ffrwyno, cafwyd consensws cynyddol bod angen cymryd camau ychwanegol nawr. Ystyriwyd beth fyddai effeithiau'r holl gamau y gallem eu cymryd gyda'i gilydd. Effaith gyfunol nifer o weithgareddau sy'n gwneud gwahaniaeth, nid y risg a ddaw o un weithgaredd yn unig.

Ar ddiwedd y cyfnod atal, byddwn yn cyflwyno set newydd o reolau cenedlaethol ynghylch sut y bydd pobl yn cael cwrdd a sut y bydd y sector cyhoeddus a busnesau'n. Rydyn ni'n llwyr gydnabod ymdrechion aruthrol busnesau a phobl Cymru i gadw Cymru'n ddiogel.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gan obeithio bod y llythyr hwn wedi bod yn ddefnyddiol.

Yn gywir,



**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth